**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mawrth 2011**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried yr adroddiad gan y Pwyllgor Safonau sydd ynghlwm.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae seithfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

## Argymhelliad

4 Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma seithfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2010 hyd fis Mawrth 2011. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Am faterion personol, ymddiswyddodd Samindre Soysa o'r Pwyllgor. Yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod, penderfynwyd hysbysebu am aelod newydd. Ar 1af o Fedi, cynhaliwyd cyfweliadau ym Mhencadlys Tân ac Achub ac fe apwyntiwyd David Morris.

Felly, dyma'r aelodaeth newydd:

Aelodau Annibynnol
Simon Fysh
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones
David Morris

Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub
Cynghorydd Glyn Williams
Cynghorydd Merfyn Thomas

## Cyfarfodydd a gynhaliwyd

Cafodd y Pwyllgor Safonau gyfarfod ar 4ydd Mai 2010 a 13eg Ionawr 2011 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

<table>
<tr><td>4ydd Mai 2010</td><td>13eg Ionawr 2011</td></tr>
<tr><td>Simon Fysh</td><td>Simon Fysh</td></tr>
<tr><td>Celia Blomeley</td><td>Celia Blomeley</td></tr>
<tr><td>Jane A Eyton-Jones</td><td>Jane A Eyton-Jones</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyngh Merfyn Thomas a'r Cyngh Glyn Williams</td><td>Cyngh Glyn Williams</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Morris a'r Cynghorydd Merfyn Thomas</td></tr>
</table>

## Materion a drafodwyd

Yng Nghyfarfod **4ydd Mai 2010**, trafodwyd y materion canlynol:

Yn dilyn ymddiswyddiad Samindre Soysa, apwyntiwyd Jane Eyton-Jones yn is-gadeirydd y Pwyllgor.

Trafododd y Pwyllgor ei gynllun gwaith a phenderfynu canolbwyntio ar y polisïau cwynion a chwythu'r chwiban fel y comisiynwyd gan yr Awdurdod.

Yng Nghyfarfod **13eg Ionawr 2011,** hysbyswyd Aelodau fod yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ail feddwl ei benderfyniad i beidio talu lwfans i aelodau annibynnol. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi gallu hawlio £362.50 y flwyddyn wedi ei ôl-ddyddio i 1af Ebrill 2010 ac roedd aelodau annibynnol eraill yn gallu hawlio £190 y flwyddyn.

Derbyniodd y Pwyllgor ddadansoddiad o’r hyfforddiant cod ymddygiad ddarparwyd i aelodau o’r Awdurdod gan eu hawdurdodau cyfansoddol i sicrhau fod pawb wedi derbyn y wybodaeth angenrheidiol.

Dosbarthwyd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon i’r aelodau er gwybodaeth ac adolygiad.

Roedd y Pwyllgor wedi trafod cam 3 y weithdrefn gwynion yn flaenorol ac fe gytunwyd byddai’n ymarfer da cael aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau i fod yn aelod ar y panel ar gyfer cwynion oedd yn cyrraedd cam 3 y weithdrefn. Gellir newid yr aelod annibynnol er mwyn cynyddu gwybodaeth a phrofiad yr aelodau annibynnol. Fodd bynnag, cydnabuwyd mai dim ond dwy gwyn oedd wedi cyrraedd cam 3 y weithdrefn. Byddai’r Clerc yn argymell newid i gyfansoddiad y Panel Gwynion. Adroddodd y Clerc ymhellach fod y Panel, pan oedd wedi cwrdd, wedi ei drefnu’n dda ac nad oedd unrhyw bryderon i’w hadrodd.

## Cwynion yn erbyn aelodau o’r Awdurdod Tân ac Achub

Yn ystod cyfod yr adroddiad, ni waned unrhyw gwynion yn erbyn cynghorwyr yn eu rolau fel aelodau o’r Awdurdod Tân ac Achub. Felly, ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i’r Pwyllgor eu harchwilio neu benderfynu.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes gan y Pwyllgor Safonau gyllideb. Yr unig gostau ychwanegol i’w nodi oedd costau hysbysebu recriwtio am aelod newydd o £1,337. Costau arferol oedd costau teithio i ac o’r cyfarfodydd a’r amser a dreuliwyd mewn cyfarfodydd gydag Aelodau a Swyddogion.

## Casgliad

Mae’r Pwyllgor Safonau’n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.